

## SWYDD DDISGRIFIAD

<b>TEITL SWYDD:</b>	<b>Swyddog Cynnal a Chadw</b>
<b>YN ATEBOL I:</b>	<b>Uwch Swyddog Cynnal a Chadw</b>
<b>ADRAN:</b>	<b>Tim Cleient</b>
<b>CYFLOG (£):</b>	<b>Gradd 9</b>

### PRIF BWRPAS Y SWYDD

Darparu a hybu Gwasanaeth Cwsmer o safon ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth mewnol ac allanol a rhanddeiliaid.

Cyflawni archwiliadau gwaith trwsio ymatebol yn unol â chanllawiau gwaith trwsio ymatebol.

Cyflawni archwiliadau effeithiol ac effeithlon ar eiddo gwag.

Sicrhau bod pob archwiliad yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a manwl i alluogi'r Tîm Trwsio neu unrhyw gontractwr arall gyflawni gwaith yn gywir y tro cyntaf (e.e. disgrifiadau, mesuriadau, adroddiadau asbestos, cytundebau waliau cydrannol, deunyddiau arbenigol).

Darparu cefnogaeth arolygu dechnegol i'r Gyfarwyddiaeth Ased a Buddsoddi gyda chyfrifoldebau allweddol am y meysydd canlynol:

- Arolygon Cyflwr Stoc
- Archwiliadau ar asedau perthynol
- Efallai y bydd angen cynnal Archwiliadau Tystysgrifau Perfformiad Amgylcheddol ar eiddo gwag.
- Archwiliadau ar Welliannau Tenantiaid
- Archwilio Modurdai
- Arolygon Asbestos
- Rheoli data o ran gwaith gwella stoc

Ni fydd sgôp yr arolwg yn gyfyngedig i'r gwasanaethau uchod a all amrywio er mwyn cwrdd ag anghenion CCG.

Cefnogi cyflwyno Cytundeb Cynnal a Chadw Tir CCG. Mae hyn yn cynnwys monitro ansawdd, cadw at fanyleb y cytundeb, cydymffurfriad gydag lechyd a Diogelwch a chadw at holl ofynion eraill y cytundeb.

Bydd disgwyl i ddeilydd y swydd baratoi archwilio rhaglenni archwilio a chynorthwyo i reoli gwasanaeth archwilio gynhwysfawr ar draws holl asedau a thir CCG.

Datblygu gwasanaeth gwerth am arian sy'n canolbwyntio ar y cwsmer gan wneud pethau'n gywir y tro cyntaf a chadw at ein gair. Rhagori ym maes iechyd, diogelwch, ansawdd a'r amgylchedd (IDAA) gyda chwsmeriaid, staff a darparwyr gwasanaeth.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU

- Arwain ar fanylebau gwaith gofynnol ar asedau CCG (gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i dai, tai gwarchod, modurdai a siopau) gan roi ystyriaeth i ddeddfwriaeth bresennol a manylebau eiddo CCG.
- Cynnal archwiliadau manwl a sicrhau bod cardiau gwaith wedi eu codi a fydd yn caniatáu i'r Tîm Trwsio a chontractwyr eraill gyflawni'r gwaith yn iawn y tro cyntaf.
- Gwneud archwiliadau pan fydd y gofyn yn galw gyda phwyslais ar archwiliadau ar ôl i waith gael ei orffen i sicrhau boddhad cwsmer a bod ansawdd yn cael ei gynnal.
- Gwneud ac archwilio gwiriadau ansawdd rheoliad (ar Asedau a Thir CCG) i sicrhau bod gwasanaethau yn rhedeg yn effeithlon i gwrdd ag amcanion y busnes ac anghenion y cwsmer.
- Cynnal arolygon cyflwr stoc penodol fel sy'n ofynnol o fewn briff y gwasanaeth.
- Cynnal arolygon eiddo manwl i bennu natur a chyflwr elfennau sydd wedi eu harolygu er mwyn pennu manyleb y gwaith gofynnol ac argymhellion o amserlen ar gyfer trwsio neu newid.
- Cynorthwyo i ddatblygiad parhaus yr arolygon cyflwr stoc a'r Strategaeth Rheoli Ased.
- Cynnal archwiliadau gweledol cyfnodol o ddeunyddiau asbestos a sicrhau bod gwybodaeth asbestos yn cael ei uwchlwytho i'r gofrestr asbestos gyda'r Swyddog Cydymffurfio.
- Cynnal Tystysgrifau Perfformiad Ynni ar eiddo gwag.
- Cynnal cofnodion o bob arolygiad ac archwiliad a gaiff ei gynnal.
- Darparu cefnogaeth i sicrhau bod y cytundeb cynnal a chadw tir yn cael ei gyflawni yn effeithiol a bod ansawdd y gwaith yn cwrdd â'r safon ofynnol.
- Paratoi adroddiadau, gwybodaeth ac ystadegau ar weithgareddau gwaith a mynychu cyfarfodydd fel bo'r gofyn yn galw.
- Bod yn ymwybodol ac wedi eich diweddarau am newidiadau mewn deddfwriaeth bresennol gan gynnwys Rheoliadau Adeiladu; Gweithdrefnau Cynllunio Gwlad a Thref, Safonau Prydeinig a CE; Rheoliadau Asbestos, Rheoliadau Iechyd a Diogelwch;

Safonau Ansawdd Tai Cymru; canllawiau ac arfer da'r Gorfforaeth Dai.

- Cynorthwyo i greu a diweddarau rhaglenni arolwg misol yn flynyddol.
- Rheoli casglu data priodol gan contractwyr i gynnal cofnodion eiddo yn unol â'r gweithdrefnau.
- Cynorthwyo i reoli cefnogaeth fewnol ac allanol proffesiynol a fydd ei angen o bosib i ddarparu gwaith a rhaglen benodol.
- Cynorthwyo i ddilysu data pan fydd y Swyddog Addasiadau ac Arolygu yn gofyn.
- Darparu gwasanaethau yn unol â chod ymddygiad CCG, cyfleoedd cyfartal a pholisïau a gweithdrefnau urddas yn y gwaith a gwneud hyn o fewn eich gwaith o ddydd i ddydd.
- Cwblhau tasgau i'r safon ansawdd perthnasol a sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â thargedau ac amserlenni.
- Ymgymryd â dyletswyddau yn unol â safonau gwasanaeth CCG.
- Cydymffurfio gyda deddfwriaeth lechyd a Diogelwch a gweithdrefnau lechyd a Diogelwch CCG.
- Cyfrannu at lwyddiant fframwaith rheoli perfformiad CCG yn enwedig amcanion personol a gweithredol.
- Sicrhau bod gwaith papur a systemau personol yn gywir. Monitro/diweddarau gwybodaeth drwy'r systemau gweithio symudol yn rheolaidd.
- Gweithio fel aelod effeithiol o dîm sy'n rheoli ei hun gyda theimlad o gyfrifoldeb a phwrpas ar y cyd a darparu cyngor a chefnogaeth i gyd-weithwyr.
- Cyfrifol am gyfathrebu gyda chyd-weithwyr o fewn y sefydliad i gynorthwyo cysondeb a hybu rhannu arfer da.
- Ymgymryd â thasgau heb fawr o oruchwyliaeth a thrafod amserlenni gwaith gyda gweithwyr lle bo hyn yn berthnasol.
- Cyfrannu at bolisi amgylcheddol CCG drwy leihau unrhyw effaith amgylcheddol y gall y gwasanaeth ei greu.
- Sicrhau bod offer diogelu personol (ODP) yn cael ei ddefnyddio ar bob achlysur a bod cerdyn adnabod CCG yn cael ei gario a'i ddefnyddio gennych bob amser.

- Sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gynllunio fel bod modd cyrraedd amcanion corfforaethol CCG o ran rheoli carbon.
- Cydlynu gwaith gyda Goruchwyliwr Gwasanaeth a gwneud gwiriadau ansawdd i sicrhau bod gwasanaethau yn rhedeg yn effeithlon i gwrdd ag amcanion y busnes ac anghenion y cwsmer.
- Mynychu grwpiau ffocws cwsmer a chyfarfodydd eraill, pan fydd y gofyn yn galw.
- Trafod gydag asiantaethau allanol ar faterion sy'n ymwneud ag adeiladu.
- Cynorthwyo i ymgymryd ag unrhyw archwiliad priodol a chynhyrchu adroddiadau ar gyfer y canlynol:-
  - Hawliadau Yswiriant
  - Llithriadau, baglu a phobl yn disgyn (adran 82)
  - Difrod Tân
  - Cwynion gan Gwsmeriaid
  - Ymchwiliadau Disgyblu/Cwynion
- Cwblhau tasgau i'r safon ansawdd perthnasol a sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud yn unol â thargedau ac amserlenni.
- Sicrhau cadw at dargedau ariannol ar gyfer pob gweithgaredd gweithredol.
- Sicrhau glynu at bob targed perfformiad o ran pob gweithgaredd gweithredol a bod dychweliadau ystadegol yn cael eu cwblhau pan fydd gofyn amdanynt.
- Archwilio a rheoli pob mater iechyd a diogelwch gweithredol yn unol â deddfwriaeth bresennol a pholisïau a gweithdrefnau mewnol.
- Adnabod unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiant fel bod pob cwsmer yn cael yr un mynediad i wasanaeth a'u bod yn cael eu trin yn deg.
- Adrodd i uwch rheolwr am unrhyw beth sy'n achosi pryder lle ystyrir nad yw'r safon o wasanaeth yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau CCG.
- Deall a chydymffurfio gyda phob polisi a gweithdrefn gorfforaethol.
- Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio a'i ddiweddarau yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac unrhyw ganllawiau deddfwriaethol eraill.
- Gweithio fel aelod effeithiol o dîm sy'n rheoli ei hun gyda theimlad o gyfrifoldeb ar y cyd a phwrpas a darparu cyngor a chefnogaeth i gyd-weithwyr pan fo angen.

- Gweithio yn lle rhywun fel bydd gofyn gan uwch reolwyr os bydd rhywun yn absennol gan gynnwys gwyliau blynyddol, hyfforddiant a secondiad.
- Hybu a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.
- Gwneud unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n berthnasol i'r swydd, fel sy'n ofynnol neu fel bydd gofyn.

Ni all unrhyw swydd ddisgrifiad ymdrin â phopeth a all godi fel rhan o'r swydd ar adegau gwahanol. Er mwyn cynnal gwasanaeth effeithiol, efallai y bydd disgwyl i chi ymgymryd â thasgau eraill rhesymol, sy'n cyfateb i raddau helaeth â'r rhai a geir yn y ddogfen hon fel y pennir gan eich rheolwr llinell, Cyfarwyddwr Cynorthwyol neu Gyfarwyddwr.

## MANYLEB PERSON

	HANFODOL/ DYMUNOL
<b>CYMWYSTERAU</b>	
Cymhwyster Adeiladu - ONC / OND neu HND/HNC	H
Cymhwyster archwilio cynnal a chadw adeiladu cydnabyddedig	D
Cymhwyster Gwasanaethau Cwsmer neu'n fodlon mynychu cyrsiau	D
EPC - Tystysgrif mewn Asesiad Ynni Domestig (CertDEA)	D
Asbestos - P405 Rheoli Asbestos mewn Adeiladau	D
Cymhwyster archwilio cydnabyddedig	D
<b>PROFIAD, GWYBODAETH A SGILIAU</b>	
Profiad o waith trwsio mewn eiddo domestig a masnachol	H
Y gallu i wneud asesiadau risg sy'n briodol i'r gwaith sy'n cael ei wneud.	H
Y gallu i wneud ymchwiliadau a darparu adroddiadau/llythyrau ysgrifenedig.	H
Yn gallu defnyddio offer TG, gan gynnwys cynnal bas data .	H
Profiad blaenorol y gellir ei brofi o wneud disgrifiadau gwaith ar gyfer atgyweiriadau i dai.	H
Dealltwriaeth o fanylion wrth wneud archwiliadau i'r safon SATC.	H
Gwybodaeth weithiol o safonau SATC.	H



**CARTREFI CYMUNEDOL  
GWYNEDD**

Y gallu i wneud archwiliadau gweledol i asesu gwaith yn iawn sydd i'w wneud ac ansawdd gwaith sydd wedi ei orffen.	H
Profiad o archwilio adeiladau	H
Profiad o Feddalwedd Rheoli Ased.	D
Profiad o arolygon cyflwr stoc	D
Profiad o gynnal archwiliadau neu arolygon cynnal a chadw adeiladau ar safle	D
Profiad o gynhyrchu atodlenni gwaith, rhaglenni neu gynlluniau archwilio	H
Profiad o weithio mewn amgylchedd adeiladu	D
Gwybodaeth am yr arfer gorau, deddfwriaeth a gofynion statudol mewn perthynas â Rheoli a Chynnal a Chadw Ased Tai	H
Sgiliau gwych o ran adnabod diffygion mewn adeiladau a darganfod datrysiadau ar eu cyfer	H
Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth berthnasol a safonau fel Rheoliadau CDM, Rheoliadau Adeiladu, Rheoliadau Cynllunio, Asbestos a Safon Ansawdd Tai Cymru.	H
<b>GOFYNION IEITHYDDOL</b>	
Gallu i gyfathrebu'n effeithiol a rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.	H